# COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 25 MEDI 2025 10:00

## Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | S Easterbrook | GC Haines | D M Hughes |

## Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | RM James | W J Kendall | M Lewis |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cynghorwyr C Davies, P Ford a R Williams
Suzanne Pile - Tîm Gwasanaeth Oedolion a Phlant - Arolygiaeth Gofal Cymru

## Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Daniel Bolton | Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Darparwyr |
| Alex Williams | Rheolwr Grŵp - Hybiau Lleol |
| Ben Anderson | Arolygiaeth Gofal Cymru |

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Meryl Lawrence — Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu

Datganiadau o Ddiddordeb

RM James – Personol – Gwraig yw Cadeirydd Panel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr

## 46. Archwiliad Gwella Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Plant a Theuluoedd Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a'r cais canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhelliad**<br><br>1. Trafododd y Pwyllgor drefniadau gweithredu rhanbarthol y Tîm Dyletswydd Argyfwng a rhoddwyd gwybod iddo y byddai'r trefniant yn cael ei adolygu drwy archwilio beth sy'n cyfrif fel gwaith cymdeithasol brys y tu allan i oriau ac i roi eglurder i ddarpar alwyr ynghylch y gwasanaeth priodol i gysylltu ag ef pan fo angen. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r Aelodau gymryd rhan yn yr adolygiad i roi eu barn.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani**<br><br>2. Trafododd y Pwyllgor yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu agweddau maethu'r Cynllun Gweithredu ac i recriwtio rhagor o ofalwyr maeth mewnol a **gofynnwyd am** bapur Briffio i'r holl Aelodau i dynnu sylw at bwysigrwydd hyrwyddo dod yn ofalwr maeth i Ben-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2025 |

## 47. Arolygiad Gwasanaeth Maethu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) Mehefin 2025

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod Cabinet, Uwch Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r cais canlynol am wybodaeth ychwanegol: |

| | |
|---|---|
| | **Argymhellion**<br><br>3. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid dileu'r talfyriadau a'r acronymau yn y Strategaeth Recriwtio Gofal Maeth yn Atodiad 3 neu y dylid ychwanegu geirfa i gynorthwyo'r Pwyllgor a'r cyhoedd.<br><br>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith dibyniaeth y Gyfarwyddiaeth ar gyllid grant ar ddarparu gwasanaethau ac **argymhellodd** y dylid ychwanegu hyn at y pynciau i'w trafod yn y Grŵp Ymchwil Manwl a gofynnodd fod rhestr o'r holl gyllid grant y mae'r Gyfarwyddiaeth wedi'i dderbyn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a dadansoddiad o ba wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan ba grantiau, pa rai sy'n grantiau untro a pha rai sy'n rheolaidd, yn cael ei darparu i'r Grŵp ac Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>5. Ar ôl trafod eu pryderon ynghylch y ddibyniaeth ar gyllid grant yn y pwynt uchod, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried cynnal ymarfer cyllidebu ar sail sero i archwilio'r posibilrwydd o ddod â'r gwasanaethau neu rannau o'r gwasanaethau a gefnogir gan gyllid grant i gyllideb graidd y Gyfarwyddiaeth, lle bo modd.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani**<br><br>6. Trafododd y Pwyllgor y gwelliannau a wnaed mewn perthynas â'r gweithlu a recriwtio sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y staff asiantaeth a chynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol newydd eu recriwtio neu newydd gymhwyso sy'n cael eu cyflogi. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol bod yna gyfnod o oruchwyliaeth a hyfforddiant y mae angen amser i'w ymgorffori a mynegodd bryder y gallai hyn fod yn effeithio ar gysondeb ymarfer a nodwyd gan yr Arolygiaeth, a **gofynnodd** am ddiweddariad ysgrifenedig. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2025 |

**48. Adroddiad Gwybodaeth - Chwarter 4 / Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2024-25**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor gynnwys adroddiad Perfformiad Chwarter 4 / Diwedd Blwyddyn 2024-25, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 4 2024-25 a'r Traciwr Rheoleiddiol a ddiweddarwyd ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer Chwarter 4 2024-25 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, ystyriodd y dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor, a gwnaeth y cais canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>7. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y duedd barhaus ar i lawr mewn perthynas ag absenoldeb salwch a **gofynnodd** am y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd i geisio gwella'r sefyllfa. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2025 |

## 49. Diweddariad Rhaglen Gwaith

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodi y byddai'r Flaenraglen Waith, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:<br><br>1. Adolygiad o Fodel Gweithredu Rhanbarthol y Tîm Dyletswydd Argyfwng; a<br>2. Adolygiad o'r Gwasanaeth Maethu (mewn 9-12 mis) |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2025 |

## 50. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Medi 2025 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:06

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**